CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 19eg MAWRTH 2019

YN NEUADD GOFFA BODWROG

PRESENNOL:
Cyng H G Owen, R R Roberts, J E Lewis, J Evans, D T Roberts, J E Lewis, E D Owen, R M Roberts, W R Parry, Cyng Sirol Mrs N Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng E Williams, E W Roberts, Cyng Sirol R G Parry.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng Sirol Mrs N Roberts.

CAEL COFNODION 19eg CHWEFROR 2019 YN GYWIR. Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng R R Roberts.

MATERION YN CODI O'R COFNODION.
Ganolfan Bodffordd. Dim yn digwydd am bythefnos.

Mynwent Gymunedol Bodffordd. Cael prisiau gan ddau arall ynghylch y wal. Edrych faint mae y Cyngor yn arbed mewn cost wrth dorri llai ar y fynwent. Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng R M Roberts. Mae rhaid cael torri y coed yn enwedig wrth y beddi oherwydd y gwreiddiau. Efallai gofyn i Steven Evans neu Eden Projects.

Cynllun Cynllunio Treflys, Tynlon. 14C117B. 14C117C/MEM. 2016. Nid ydyw yn ateb i beth mae y Cyngor yn chwilio amdano. Cysylltu ac Adran Cynllunio y Cyngor Sir.

Anfonwyd i Mrs Annwen Morgan ynghylch a mater wedi gael i cymryd gan aelod o'r Cyngor heb ganiatad. (Wedi ei stopio yn ei chyhuddo o atal cyfarfod cyhoeddus o'r Ganolfan Bodffordd) gweler cyfarfod 19eg Chwefror 2019.
Nid ydyw Mrs Morgan yn dymuno dweud na gwneud mwy ynghylch y mater dan sylw.
Y Cyngor yn derbyn yn ddiolchgar.

Yr arwyddbost "Give Way" sydd angen sylw ar lon Capel Seion.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. 14C164G. Cais llawn ar gyfer newid defnydd y tir amaethyddol yn dir preswyl i'w defnyddio mewn cysylltiad a chais cynllunio amlinellol 14C164G (Codi annedd newydd) ar dir ger:-
   Llwyn Celyn, Trefor.
   Pryderu am y troiad. A ydynt yn bobl lleol. Fforddiadwy. A oes angen am dy yma.?
   Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng R R Roberts.

2. Cais llawn ar gyfer codi adeilad diwydiannol ar gyfer ei ddefnyddio fel cyfleuster trwsio / chwistrellu (defnydd dosbarth B2) codi ffens 2.4m o uchder o gwmpas y safle ynghyd a mynedfa newydd i gerbydau yn:
   12, Atad Diwydiannol, Mona, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng J Evans.

PENDERFYNIADAU:

3. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Adran Priffyrdd a Rheolaeth Gwastraff.
   Stad Lon Bodwrog. (Lorriau PAR yn cario carffos i Fferm Bodwrog)
   Y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r broblem, yn cysylltu a'r cwmni sydd wedi gwneud y difrod.
   Unrhyw dystiolaeth yn cael ei werthfawrogi. Rydym ar ddeall fod llawer o luniau wedi dod i law.

Derbyn.

5. Swyddog Polisi.
   FW: Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith. - diweddariad mis Chwefror 2019. Derbyn y wybodaeth.

GOHEBIAETH (ARALL)

6. Ail Drefnu.
   Cyfarfod gyda Lyndsey Campbell-Williams (Medrwn Mon) Canolbarth Place Shaping.
   Nos Fawrth 16eg Ebrill 2019 am 6.30. (Hanner Awr)
   Yn anffodus Mrs Lyndsey Campbell-Williams ar ei gwyliau.
   Mrs Annwen Morgan a Mrs Sheree Ellingworth fydd yn cyflwyno. Derbyn.

7. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn

8. Valley Wings. Cylchgrawn. Derbyn.

9. Diwedd BDO - Grant Thornton. (Archwilydd Allanol)
   Diolch am ymateb i`r holiadu`r. Wedi casglu tystiolaeth ynghylch trafferthion a gafwyd.
   Llyr Gruffydd wedi cael cyfarfod gyda Anthony Barrett yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol i rannu y pryderon a thrafod y mater.
   Anthony Barrett wedi dod yn ol i gadarnhau fod cytundeb BDO yn dod i ben yn y flwyddyn nesaf, ac na fyddant yn gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru o 2020 ymlaen.
   Bydd y gwaith archwilio yn cael ei dynnu yn ol "in house" ac yn cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Derbyn.

10. Un Llais Cymru. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon. Nos Iau 21ain Mawrth 2019. Llangefni. Derbyn. Dim cynrychiolaeth.

RHODDION.

11. Urdd Rhanbarth Mon. Gadael.

12. MonFM Radio Gymunedol. Gadael.

13. Oherwydd fod y Cyngor wedi clustnodi i fynnu i £2,000.00 i Neuadd Goffa Bodwrog tuag at adgyweirio. Pasiwyd i bedio a rhoi mwy o rhoddion eleni 2018/19. Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng J E Lewis.

PLWYFOL.

14. Oherwydd na chafwyd unrhyw atebiad gan Adran Dosbarthu Llythyrau Llangefni. Anfon copi o`r llythyr i Park Menai. Cafwyd ar ddeall fod y llythyrau mae Llangefni yn ei gael yn cael ei rhoi yn y dror heb ei hagor.

15. Lon Sardis tuag at y Bont (Llangwyllog) angen sylw.

16. Tro Penybryn, Bodffordd. a ydyw yn bosib cael arwyddbost mawr.

MATERION ARIANNOL:

17. Cyfrif Rhedegol £4,186.39.

TALIADAU:

18. Clerc £220.83. Treth Incwm 4. £165.60. Coatau`r Cyngor (3 mis) £137.46. Neuadd Goffa Bodwrog (Ystafell) £60.00. Capel Gad Bodffordd (Ystafell) £40.00.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng J Evans.